

# Cylch Gorchwyl (sy'n ymgorffori'r rheolau gweithdrefnol a wnaed dan Ran 7 o Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen:

Mabwysiadwyd gan y Bwrdd ar 09 Mehefin 2022

# Cynnwys

## CYLCH GORCHWYL

<b>Statws</b>	<b>3</b>
<b>Rôl a chyfrifoldebau</b>	<b>3</b>
<b>Cyfansoddiad</b>	<b>3</b>
- Aelodaeth	3
- Penodiadau	4
- Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol	5
- Cysylltiadau'r Bwrdd	5
<b>Cymorth ysgrifenyddol</b>	<b>5</b>
<b>Cyfarfodydd y Bwrdd</b>	<b>6</b>
- Y rhaglen waith	6
- Mynychder	6
- Presenoldeb	6
- Papurau	6
- Cworwm	6
- Datganiadau o Fuddiant	7
- Penderfyniadau a phleidleisio	7
- Ymddygiad	7
- Cofnodion	8
<b>Dirprwyo swyddogaethau</b>	<b>8</b>
<b>Pwyllgorau'r Bwrdd</b>	<b>8</b>
<b>Camau Gweithredu gan y Cadeirydd</b>	<b>8</b>
<b>Gwerthuso perfformiad</b>	<b>9</b>
<b>Dilysrwydd trafodion</b>	<b>9</b>
<b>Sêl Swyddfa Archwilio Cymru</b>	<b>9</b>
<b>Adolygu'r cylch gorchwyl</b>	<b>9</b>
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1 – rheolau ar gyfer ethol aelodau o blith cyflogeion i'r Bwrdd	10
Atodiad 2 – Disgrifiad o rôl cyswllt y Bwrdd	15

## Statws

- 1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i sefydlu fel corff corfforedig dan adran 13 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ("y Ddeddf"). Mae'r cylch gorchwyl hwn yn cwmpasu'r trefniadau ar gyfer cynnal busnes a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r canlynol:
  - cynllun dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru;
  - y Cod Ymarfer ar gyfer y berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; a
  - Chod Ymddygiad y Bwrdd.
- 2 Mae'r cylch gorchwyl hwn yn ymgorffori'r rheolau gweithdrefnol sy'n ofynnol dan Atodlen 1, rhan 7, paragraff 27 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Rôl a chyfrifoldebau

- 3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru:
  - (a) yn monitro'r modd y cyflawnir swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol;
  - (b) yn darparu cyngor ynghylch y modd y cyflawnir y swyddogaethau hynny;
  - (c) yn sicrhau y darperir adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r swyddogaethau hynny a bod annibyniaeth weithredol swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei gwarchod yn unol ag Adran 8 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;
  - (d) yn gyfrifol am gynnal safonau llywodraethu corfforaethol a chyflawni swyddogaethau penodol dan Ddeddf 2013.
- 4 Caiff cyfrifoldebau penodol a chydgyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru a'i haelodau eu disgrifio yn y Cod Ymarfer ar gyfer y berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cyfansoddiad

### Aelodaeth

- 5 Mae gan y Bwrdd naw aelod sy'n cynnwys:
  - (a) pum aelod anweithredol, y mae un ohonynt yn gweithredu fel y Cadeirydd;
  - (b) yr Archwilydd Cyffredinol sydd hefyd yn gweithredu fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru; ac
  - (c) tri aelod o blith y cyflogeion, un wedi'i enwebu gan yr Archwilydd Cyffredinol a dau wedi'u hethol trwy bleidlais ymhlith y cyflogeion.

## Penodiadau

### Yr aelodau anweithredol

- 6 Mae'r Senedd yn penodi pum aelod anweithredol ac yn pennu telerau eu penodiad gan gynnwys eu cyfrifoldebau, cydnabyddiaeth ariannol, yr amgylchiadau lle gellir terfynu eu penodiad a'r trefniadau pe baent yn dymuno ymddiswyddo. Mae penodiadau'n para am hyd at bedair blynedd a gellir eu hadnewyddu unwaith, yn amodol ar broses asesu.

### Y Cadeirydd

- 7 Mae'r Senedd yn penodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o blith yr aelodau anweithredol (ar ôl ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru). Mae penodiadau'n para am hyd at bedair blynedd a gellir eu hadnewyddu unwaith, yn amodol ar broses asesu.
- 8 Mae'r Senedd yn pennu telerau penodiad y Cadeirydd, gan gynnwys ei gyfrifoldebau, cydnabyddiaeth ariannol, yr amgylchiadau lle gellir terfynu ei benodiad a'r trefniadau pe bai'n dymuno ymddiswyddo (gan ymddiswyddo neu beidio ag ymddiswyddo fel aelod anweithredol hefyd).

### Yr Archwilydd Cyffredinol

- 9 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn benodiad gan y Goron ar enwebiad y Senedd. Gall yr Archwilydd Cyffredinol ddal y swydd am hyd at wyth mlynedd ac ni ellir ei ailbenodi wedi hynny. Caiff yr amgylchiadau lle gall yr Archwilydd Cyffredinol ymddiswyddo neu gael ei ddiswyddo eu nodi yn adran 3 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.
- 10 Dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn aelod o Swyddfa Archwilio Cymru ac yn Brif Weithredwr arni.

### Yr aelod penodedig

- 11 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn argymhell cyflogai i gael ei benodi i Swyddfa Archwilio Cymru gan yr aelodau anweithredol ("yr aelod penodedig"). Gall yr aelodau anweithredol benodi enwebai'r Archwilydd Cyffredinol neu ofyn am argymhelliad arall (mae'r broses hon yn parhau nes doir i gytundeb). Rhaid i'r aelodau anweithredol egluro'u rhesymau dros beidio â derbyn enwebiad. Bydd y penodiad am ba bynnag gyfnod adnewyddadwy a bennir gan yr aelodau anweithredol ac nid oes terfyn o ran y nifer o weithiau y gellir adnewyddu penodiad o'r fath.
- 12 Gall yr aelod penodedig ymddiswyddo o'r Bwrdd trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r aelodau anweithredol.
- 13 Caiff penodiad yr aelod penodedig ei derfynu os yw'r aelod hwnnw'n peidio â bod yn un o gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru. Gall yr aelodau anweithredol derfynu'r penodiad trwy roi rhybudd ysgrifenedig os yw'r aelod:
  - (a) wedi bod yn absennol o gyfarfodydd y Bwrdd heb ganiatâd y Bwrdd am gyfnod neu gyfnodau sy'n gyfanswm o dri mis neu fwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis; neu
  - (b) wedi dod yn fethdalwr neu wedi llunio trefniant gyda chredydwy; neu
  - (c) wedi cael secwestro ei ystâd yn yr Alban neu, dan Gyfraith yr Alban, wedi gwneud compôwnd neu drefniant gyda, neu wedi caniatáu gweithred ymddiriedolaeth ar gyfer, credydwy'r aelod; neu
  - (d) yn anaddas i barhau â'r penodiad oherwydd camymddwyn; neu

- (e) wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r penodiad, neu
- (f) yn analluog, yn anaddas neu'n amharod fel arall i gyflawni swyddogaethau'r aelod.

### **Yr aelodau etholedig**

- 14 Mae'r aelodau anweithredol yn penodi dau aelod o blith y cyflogeion yn dilyn pleidlais ymhlith staff ("yr aelodau etholedig"). Caiff y rheolau ar gyfer cynnal pleidleisiau o'r fath eu nodi yn Atodiad 1.
- 15 Mae'r aelodau anweithredol yn pennu telerau penodiad yr aelodau etholedig, gan gynnwys eu cyfrifoldebau, lwfansau, yr amgylchiadau lle gellir terfynu eu penodiad a'r trefniadau pe baent yn dymuno ymddiswyddo. Nid oes terfyn o ran faint o weithiau y gallant sefyll fel ymgeisydd mewn pleidleisiau dilynol.
- 16 Caiff penodiad aelod o blith y cyflogeion ei derfynu os yw'r aelod hwnnw'n peidio â bod yn un o gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru.

### **Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol**

- 17 Mae'r Cadeirydd yn enwebu aelod anweithredol i gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol. Yn ogystal â dirprwyo ar ran y Cadeirydd pan nad yw'n gallu gweithredu, mae cyfrifoldebau'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cynnwys:
  - (a) arfarnu perfformiad y Cadeirydd;
  - (b) cael adroddiadau gan chwythwyr chwiban y tu allan i'r gadwyn rheolaeth llinell arferol, a threfnu ymchwiliad fel y bo'n briodol, yn unol â pholisi chwythu'r chwiban mewnol Swyddfa Archwilio Cymru; ac
  - (c) goruchwyllo'r broses o ethol aelodau o blith y cyflogeion i'r Bwrdd.

### **Cysylltiadau'r Bwrdd**

- 18 Gall y Bwrdd benodi aelodau i rolau eraill i gefnogi neu hyrwyddo agweddau penodol ar fusnes Swyddfa Archwilio Cymru neu brosiectau gorchwyl a gorffen. Mae rolau o'r fath wedi'u bwriadu i ddangos ymrwymiad y Bwrdd a rhoi'r cyfle i aelodau ddatblygu mewnwelediad a gwybodaeth am y busnes, gan eu helpu hwy a'r Bwrdd i gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol. Ceir rhagor o wybodaeth am y rolau a'u diben yn Atodiad 2.

### **Cymorth ysgrifenyddol**

- 19 Mae'r Bwrdd yn penodi Ysgrifennydd i:
  - a) sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei gyfansoddi a'i gynghori'n briodol;
  - b) sicrhau bod agendâu'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n gyson â'i gilydd a bod materion priodol yn cael eu huwchgyfeirio i'w cynnwys ar agendâu'r Bwrdd;
  - c) cynnal cyswllt â'r Cadeirydd ynglŷn â'r rhaglen waith;
  - d) sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybodaeth a phapurau'n brydlon i'w gwneud yn bosibl rhoi ystyriaeth lawn a phriodol i'r materion;
  - e) gwneud trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a chadw cofnodion priodol o'i fusnes;
  - f) cyflawni'r dyletswyddau gweinyddol ar gyfer ethol aelodau o blith y cyflogeion i'r Bwrdd a nodir yn y rheolau etholiadol (atodiad 1); ac
  - g) rhoi unrhyw gymorth ymarferol arall sy'n angenrheidiol.

- 20 Mae'r Cadeirydd yn cyfrannu at yr arfarniad blynyddol o berfformiad yr Ysgrifennydd fel rhan o'r trefniadau arferol.

## Cyfarfodydd y Bwrdd

### Y rhaglen waith

- 21 Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cynnal cynllun o'r busnes sy'n debygol o ddod gerbron i gael ei ystyried gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn adolygu ac yn addasu'r cynllun fel y bo angen ym mhob cyfarfod.

### Mynychder

- 22 Mae'r Bwrdd yn cwrdd fel arfer:
- bedair gwaith y flwyddyn ar gyfer cyfarfodydd trafod strategol; a
  - chwe gwaith bob blwyddyn ar gyfer cyfarfodydd busnes, yn unol â gofynion ei raglen waith.
- 23 Gelwir cyfarfodydd y Bwrdd gan yr Ysgrifennydd ar gais y Cadeirydd. Gall cyfarfod arbennig ar gyfer y Bwrdd gael ei alw unrhyw bryd gan y Cadeirydd neu ar gais ysgrifenedig unrhyw dri aelod. Gellir galw cyfarfod arbennig â llai na phum niwrnod gwaith o rybudd os yw'r Cadeirydd yn cyfarwyddo hynny ac os oes materion sy'n mynnu ystyriaeth frys.

### Presenoldeb

- 24 Gall aelodau sy'n methu â bod yn bresennol godi unrhyw bwyntiau gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod y maent yn ymwneud ag ef.
- 25 Os yw'r Cadeirydd a'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ill dau'n methu â bod yn bresennol yn y cyfarfod cyfan neu am ran o'r gyfarfod, rhaid i'r aelodau anweithredol sy'n weddill benodi un o'u plith hwy eu hunain i fod yn Gadeirydd am y cyfarfod hwnnw neu'r rhan honno o'r cyfarfod. Bydd y trefniadau cworwm a ddisgrifir ym mharagraffau 28 i 31 yn berthnasol.
- 26 Gall y Bwrdd wahodd aelodau eraill o staff i fod yn bresennol neu ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn bresennol ar gyfer cyfarfodydd cyfan neu am ran o gyfarfodydd fel y bo'n briodol. Gellir cyfranogi trwy alwad ffôn neu fideogynadleda yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd. Gall y Cadeirydd ofyn i rywun sy'n bresennol adael y cyfarfod ar unrhyw adeg.

### Papurau

- 27 Oni chytunwyd yn wahanol, o leiaf bum niwrnod cyn dyddiad y cyfarfod, bydd yr Ysgrifennydd yn anfon rhybudd at aelodau ac unrhyw un arall y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol o bob cyfarfod a hwnnw'n cadarnhau'r lleoliad, y dyddiad a'r amser ynghyd ag agenda o eitemau i'w trafod. Bydd papurau ategol yn cael eu hanfon ar yr un pryd. Eithriad yw papurau hwy'r a dim ond gyda chytundeb y Cadeirydd ymlaen llaw y gellir eu derbyn.

### Cworwm

- 28 Pum aelod yw'r cworwm angenrheidiol i drafod busnes, ar yr amod dan yr holl amgylchiadau na ellir cael cworwm oni bai bod mwyafrif o'r aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol.

- 29 Dylai cyfarfod Bwrdd a gynullwyd yn briodol ac y mae cworwm yn bresennol yn ddo fod yn gymwys i gyflawni'r holl neu unrhyw awdurdodau, pwerau a disgresiynau a ymddiriedwyd i'r Bwrdd neu sydd i'w cyflawni gan y Bwrdd.
- 30 Os yw cyfarfod yn un heb gworwm, ni ellir cynnal unrhyw fusnes ffurfiol a rhaid i gyfarfod barhau i fod â chworwm er mwyn i benderfyniadau gael eu gwneud. Os nad oes cworwm mewn cyfarfod, bydd unrhyw drafodaethau'n rhai anffurfiol yn unig.
- 31 Os nad oes cworwm, gall y Cadeirydd:
- (a) penderfynu galw cyfarfod arbennig i gynnal yr holl fusnes neu'r busnes sy'n weddill; neu
  - (b) cyfeirio penderfyniadau at y cyfarfod nesaf lle y bo hynny'n ddichonadwy o fewn cyfyngiadau terfynau amser statudol ac ymarferol eraill; neu
  - (c) gofyn i un neu fwy nag un aelod o blith y cyflogeion adael y cyfarfod i'w alluogi i ddod yn gyfarfod â chworwm.

## Datganiadau o fuddiant

- 32 Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn disgrifio'r amgylchiadau lle mae'n rhaid cofrestru buddiannau a'r broses ar gyfer gwneud hynny. Mae'r Cod hefyd yn darparu ar gyfer datgan buddiannau yng nghyfarfodydd y Bwrdd.
- 33 Rhaid i'r Ysgrifennydd hysbysu'r Cadeirydd a dwyn y mater i sylw'r aelod os yw'n ymddangos, yn seiliedig ar ddatganiad yn y gofrestr o fuddiannau'r Aelodau, bod gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl mewn perthynas ag eitem ar yr agenda.
- 34 Gall y Cadeirydd benderfynu y dylai rhai eitemau ar yr agenda gael eu hystyried yn absenoldeb un neu fwy nag un aelod am na ellir rheoli neu liniaru gwrthdaro buddiannau fel arall. Lle y bo'n ymarferol gwneud hynny, bydd y Cadeirydd yn nodi eitemau o'r fath cyn y cyfarfod a byddant yn cael eu nodi ar wahân ar yr agenda fel sesiwn breifat.
- 35 Yn achos materion a godir ar y dydd, bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfarfod pa eitemau (os o gwbl) fydd yn cael eu cymryd mewn sesiwn breifat.
- 36 O bryd i'w gilydd, rhaid i'r Bwrdd adolygu'r defnydd o sesiynau preifat i sicrhau bod y dynodiad wedi cael ei ddefnyddio'n briodol a dim ond pan oedd yn angenrheidiol.

## Penderfyniadau a phleidleisio

- 37 Lle y bo'n bosibl, caiff penderfyniadau'r Bwrdd eu gwneud trwy gonsensws o'r aelodau sy'n bresennol. Lle nad yw'r Cadeirydd yn gallu cyflawni consensws, penderfynir ar y mater dan sylw trwy fwyafrif o bleidleisiau'r aelodau sy'n bresennol.
- 38 Ni chaniateir pleidleisiau trwy ddirprwy na phleidleisiau drwy'r post ar ran aelodau absennol.
- 39 Gall yr aelodau bleidleisio trwy bleidlais gudd os yw mwyafrif o'r aelodau'n cytuno.
- 40 Mae gan aelodau sy'n anghytuno hawl i gael cofnodi eu hanghytundeb yn y cofnodion ynghyd â'r rheswm/rhesymau dros yr anghytundeb hwnnw.
- 41 Unwaith y penderfynwyd ar fater, mae penderfyniad y Bwrdd yn rhwymo pob aelod.
- 42 Dim ond trwy benderfyniad dilynol y gall penderfyniadau'r Bwrdd gael eu tynnu'n ôl neu eu hamrywio. Ni ellir tynnu unrhyw benderfyniad yn ôl na'i amrywio oni bai ei fod yn cael ei ailystyried fel eitem yn ei rhinwedd ei hun ar agenda cyfarfod diweddarach.

## Ymddygiad

- 43 Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn disgrifio'r safonau ymddygiad a ddisgwylir yn ystod cyfarfodydd ac yn fwy cyffredinol. Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am gadw trefn yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a gall gymryd unrhyw gamau rhesymol sy'n angenrheidiol i sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal yn drefnus.

## Cofnodion

- 44 Rhaid i'r Ysgrifennydd sicrhau bod y Bwrdd yn cadw cofnodion priodol o'i drafodion a'i benderfyniadau.
- 45 Bydd yr Ysgrifennydd yn amcanu at anfon y cofnodion drafft at y Cadeirydd o fewn pum niwrnod gwaith i gyfarfod y Bwrdd y maent yn ymwneud ag ef a bydd y Cadeirydd yn eu cymeradwyo i'w dosbarthu i'r aelodau.
- 46 Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r cofnodion yn ei gyfarfod nesaf. Rhaid i'r Ysgrifennydd drefnu bod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi trwy gael eu gosod ar ardal hygyrch ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Dirprwyo swyddogaethau

- 47 Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n gweithredu yn unol â'i chynllun dirprwyo ond nid yw dirprwyo swyddogaeth yn atal y Bwrdd rhag cyflawni'r swyddogaeth ei hun.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

- 48 Gall y Bwrdd sefydlu pwyllgorau a dirprwyo swyddogaethau iddynt (ac eithrio lle na chaniateir trefniant dirprwyo o'r fath fel a nodir yn y cynllun dirprwyo). Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo cylchoedd gorchwyl ei bwyllgorau a gaiff eu hadolygu'n flynyddol.
- 49 Bydd aelodau'r pwyllgorau fel arfer yn cynnwys aelodau anweithredol ac aelodau etholedig o blith y cyflogeion. Fodd bynnag, gall rhywun nad yw'n un o aelodau nac yn un o gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru fod yn aelod o bwyllgor ar yr amod nad yw'r Bwrdd yn dirprwyo unrhyw swyddogaethau i'r pwyllgor neu is-bwyllgor.
- 50 Gall un o gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru nad yw'n aelod o blith y cyflogeion fod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor.

## Camau Gweithredu gan y Cadeirydd

- 51 Mae'r Bwrdd yn dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cadeirydd weithredu ar ei ran wrth ymdrin â champau gweithredu rheolaidd na fyddent fel arfer yn deilwng o fod yn eitem ar agenda cyfarfod Bwrdd, er enghraifft llofnodi dogfennau rheolaidd ar ran y Bwrdd.
- 52 O bryd i'w gilydd, bydd angen i'r Cadeirydd weithredu ar ran y Bwrdd rhwng cyfarfodydd ar faterion mwy sylweddol. Lle y bo'n bosibl, dylai'r Bwrdd awdurdodi camau gweithredu o'r fath yn un o gyfarfodydd blaenorol y Bwrdd a dylai'r Ysgrifennydd ei gofnodi'n unol â hynny.
- 53 Yn eithriadol, gall cam gweithredu gan y Cadeirydd fod yn ofynnol ar gyfer mater brys, lle byddai oedi'n niweidio Swyddfa Archwilio Cymru'n ddifrifol. Dan amgylchiadau o'r fath rhaid i'r Ysgrifennydd sicrhau bod y cam gweithredu gan y Cadeirydd yn cael ei wneud yn hysbys yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ac yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw trwy ei



gadarnhau. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Bwrdd yn derbyn cyfrifoldeb corfforaethol am unrhyw gam gweithredu a gymerwyd.

- 54 Mewn perthynas ag eitemau busnes annisgwyl a brys, gall y Cadeirydd benderfynu peidio â defnyddio camau gweithredu gan y Cadeirydd o blaid ymgysylltu â'r holl aelodau i ddod i benderfyniad ar y cyd. Gall y Bwrdd ystyried busnes o'r fath trwy'r e-bost ar sail eithriad. Bydd y trefniadau ar gyfer cynnull cworwm (paragraffau 28 i 31) ac ar gyfer cofnodi penderfyniadau (paragraff 44) yn berthnasol.

## Gwerthuso perfformiad

- 55 Bydd y Bwrdd yn gwerthuso'i berfformiad ei hun (gan gynnwys perfformiad ei bwyllgorau) yn flynyddol. Bob tair i bum mlynedd, rhaid i'r gwerthusiad hwn gael ei gyflawni gan ymgynghorydd allanol annibynnol.
- 56 Bydd y Cadeirydd yn adolygu perfformiad aelodau yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad a sefydlwyd at y diben hwnnw. Caiff perfformiad y Cadeirydd ei adolygu gan yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol.
- 57 Mae'r Bwrdd yn cynnal cynllun dysgu a datblygu, a adolygir yn flynyddol, sy'n cwmpasu'r trefniadau ar gyfer sefydlu aelodau newydd ac ar gyfer rhoi hyfforddiant parhaus perthnasol i aelodau presennol.

## Dilysrwydd trafodion

- 58 Nid effeithir ar ddilysrwydd trafodion y Bwrdd nac unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor gan unrhyw le gwag neu benodiad diffygiol lle mae unrhyw un o'i aelodau yn y cwestiwn.

## Sêl Swyddfa Archwilio Cymru

- 59 Wrth gymhwyso'r sêl, rhaid i hynny gael ei ddilysu trwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:
- llofnod aelod o'r Bwrdd; neu
  - unrhyw un a awdurdodwyd at y diben trwy benderfyniad gan y Bwrdd; neu
  - gynllun dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru.

## Adolygu'r cylch gorchwyl

- 60 Mae'r Bwrdd yn adolygu'r cylch gorchwyl hwn yn flynyddol.

# Atodiad 1 – rheolau ar gyfer ethol aelodau o blith cyflogeion i'r Bwrdd

## Cyfrifoldeb am drefniadau etholiadol

- 1 Bydd yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn gweithredu yng nghymhwyster 'Swyddog Etholiadau' sy'n gyfrifol am oruchwylio'r trefniadau ar gyfer cynnal y bleidlais ac am ardystio'r canlyniad.
- 2 Mae Ysgrifennydd y Bwrdd ('yr Ysgrifennydd') yn gyfrifol am gynorthwyo'r Swyddog Etholiadau trwy wneud y trefniadau gweinyddol ar gyfer y bleidlais i'r graddau y bo'r rhain yn angenrheidiol i ategu'r rhai a ddarperir gan sefydliad allanol dibynadwy (gweler paragraff 21 isod).
- 3 Os yw'r Ysgrifennydd yn bwriadu cynnig ei enw ar gyfer y bleidlais, rhaid i'r Swyddog Etholiadau benodi ysgrifennydd dros dro i gyflawni rôl yr Ysgrifennydd o ran gweinyddu'r bleidlais. Os caiff yr Ysgrifennydd ei ethol, daw swydd Ysgrifennydd y Bwrdd i fod yn wag, a rhaid i'r Bwrdd gychwyn proses recriwtio i benodi rhywun yn lle'r Ysgrifennydd<sup>1</sup>.

## Rhybudd o bleidlais a'i hamseriad

- 4 Y Bwrdd fydd yn pennu'r terfynau amser ar gyfer derbyn enwebiadau a phleidleisio. Fodd bynnag:
  - (a) Dylai'r terfyn amser ar gyfer cael enwebiadau fod yn ddim llai nag 8 diwrnod gwaith yn dilyn rhybudd o bleidlais ac yn ddim llai nag 20 diwrnod cyn bod y bleidlais yn cau.
  - (b) Dylai'r terfyn amser ar gyfer cau'r bleidlais fod yn ddim mwy na 45 diwrnod gwaith ar ôl unrhyw le gwag ond gellir rhoi estyniad o 10 niwrnod gwaith pellach er mwyn osgoi peri bod cyfnod yr etholiad, gan gynnwys y cyfnod ar gyfer enwebiadau, yn cyd-daro ag amser pan fo niferoedd mawr o staff yn absennol neu'n brysur iawn yn cwblhau archwiliadau.
- 5 Bydd y bleidlais ar agor am gyfnod o 10 niwrnod gwaith o leiaf.
- 6 Rhaid i'r Ysgrifennydd gyhoeddi rhybudd o bleidlais ar fewnwyd Swyddfa Archwilio Cymru (gyda dolen mewn neges e-bost a anfonir at yr holl staff) ddim mwy na 5 niwrnod gwaith ar ôl i le sy'n digwydd dod yn wag (lle gwag sy'n codi am resymau heblaw diwedd arferol cyfnod aelod yn y rôl) ddigwydd neu, yn achos lleoedd gwag sy'n codi dan y drefn arferol, ddim llai na 15 diwrnod cyn diwedd arferol cyfnod

<sup>1</sup> Bydd rhywun sy'n rhoi'r gorau i fod yn Ysgrifennydd y Bwrdd am ei fod wedi cael ei ethol yn aelod o blith y cyflogeion yn cael ei aseinio i waith arall yn y sefydliad, ar yr amod bod gwaith addas ar gael, ac eithrio wrth gwrs mewn perthynas â'i waith fel aelod o blith y cyflogeion.

aelod presennol o blith y cyflogeion. Gellir cyflwyno enwebiadau o'r dyddiad y cyhoeddwyd y rhybudd o bleidlais.

- 7 Rhaid i'r hysbysiad o bleidlais nodi'r terfyn amser (dyddiad ac amser) ar gyfer derbyn enwebiadau gan yr Ysgrifennydd, y dyddiad a'r amser y bydd y pleidleisio'n dod i ben, a chynnwys dolen i'r rheolau hyn ar gyfer etholiadau.

## Enwebiadau

- 8 Mae holl gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru, beth bynnag fo ffurf neu hyd eu contract, hyd eu gwasanaeth neu eu horiau gwaith yn gymwys i gael eu henwebu i sefyll i gael eu hethol.
- 9 Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd, gan gynnal cyswllt â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a rheolwyr llinell fel y bo'n briodol, yn gwneud trefniadau i sicrhau bod staff sydd i ffwrdd o'r swyddfa, er enghraifft ar secondiad, absenoldeb oherwydd salwch neu absenoldeb rhiant, yn cael cyfle i gyfranogi yn y broses os ydynt yn dewis gwneud hynny.
- 10 Rhaid i enwebiadau gael eu gwneud ar ffurflen a gymeradwywyd gan y Swyddog Etholiadau, cael eu llofnodi gan yr ymgeisydd a phum noddwr sy'n gyflogeion yn Swyddfa Archwilio Cymru (neu gael eu hategu gan negeseuon e-bost diledryw o gyfeiriadau e-bost Swyddfa Archwilio Cymru'r bobl berthnasol) a dod i law'r Ysgrifennydd cyn y terfyn amser a gyhoeddwyd. Dim ond un ymgeisydd y gall noddwr ei noddi ar gyfer pob lle gwag. Ni fydd enwebiadau sy'n dod i law ar ôl y terfyn amser yn cael eu derbyn. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod y ffurflen enwebu'n cael ei chwblhau'n briodol ac yn cael ei danfon at yr Ysgrifennydd cyn y terfyn amser.
- 11 Rhaid i'r Ysgrifennydd gyhoeddi rhestr o enwebiadau dilys a gafwyd ar fewnwyd Swyddfa Archwilio Cymru cyn gynted â phosibl ar ôl y terfyn amser. Bydd yr Ysgrifennydd yn trefnu bod ffurflenni enwebu wedi'u cwblhau ar gael i'w harchwilio.
- 12 Os yw nifer yr enwebiadau dilys yn cyfateb i nifer y lleoedd sydd ar gael, nid yw'n ofynnol pleidleisio ac ystyrir bod y rhai a enwebwyd wedi cael eu hethol.
- 13 Os yw nifer yr enwebiadau dilys yn llai na nifer y lleoedd sydd ar gael, ni chynhelir pleidlais. Os oes un ymgeisydd cymwys, caiff ef neu hi ei (h)ethol yn ddiwrthwynebiad. Bydd lle sy'n digwydd dod yn wag yn codi mewn perthynas â'r lle sydd heb ei lenwi a rhaid ailadrodd y broses etholiadol nes bod nifer yr ymgeiswyr o leiaf yn cyfateb i nifer y lleoedd gwag.

## Ymgyrchu

- 14 Caniateir i ymgeiswyr a enwebwyd ymgyrchu trwy unrhyw un neu bob un o'r dulliau canlynol:
  - i. darparu **datganiad ysgrifenedig nad yw'n fwy na 500 o eiriau** i'w gyhoeddi ar y fewnwyd (yr Hwb) a'r wefan bleidleisio allanol. Dylid anfon y datganiad trwy'r e-bost at Ysgrifennydd y Bwrdd a fydd yn trefnu ei fod yn cael ei

gyfieithu a'i gyhoeddi. Wrth gynllunio'u hymgyrch dylai ymgeiswyr ganiatáu 3 diwrnod gwaith i gyfieithu eu datganiad a'i gyhoeddi ar yr HWB. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod ar wahân erbyn pa ddyddiad y dylai'r datganiad gael ei ddarparu er mwyn iddo gael ei gynnwys ar y wefan bleidleisio allanol. Ni fydd datganiadau nad ydynt yn dod i law erbyn y dyddiad hwnnw'n cael eu cynnwys.

- ii. anfon **un neges e-bost nad yw'n fwy na 500 o eiriau at yr holl staff** – dylai ymgeiswyr drefnu cyfieithiad yn uniongyrchol trwy'r offeryn cyfieithu (dewiswch y broses ethol) ac anfon yr e-bost yn ddwyieithog at yr holl staff yn ystod y cyfnod ymgyrchu;
  - iii. gwahodd yr holl staff i fod yn bresennol mewn **un sesiwn holi ac ateb drwy Teams**, y gall crynodeb dienw o gwestiynau ac atebion ohoni gael ei gyhoeddi ar y dudalen etholiadau ar yr HWB;
  - iv. **ateb cwestiynau ad hoc** a ofynnwyd yn anffurfiol ar lafar, trwy e-bost, Yammer neu ar ffurf sylwadau ar yr HWB ac ychwanegu'r rhain at ddogfen holi ac ateb ar y dudalen etholiadau ar yr HWB;
  - v. **recordio fideo un funud o hyd** yn eu cyflwyno'u hunain a'u rhesymau dros sefyll; a
  - vi. defnyddio edefyn Yammer ar y grŵp 'cwmni cyfan' i wahodd ac ateb cwestiynau.
- 15 Ni chaniateir unrhyw fath arall o ymgyrchu gan yr ymgeisydd na'i gefnogwyr; ni ddylid defnyddio cyfrifon personol na chyfrifon gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol i ymgyrchu, heblaw'r grŵp Yammer cwmni cyfan neu'r nodwedd sylwadau ar yr HWB sy'n weladwy i'r holl staff.
- 16 Daw'r cyfnod ymgyrchu i ben pan fo'r bleidlais yn agor; ni chaniateir i ymgeiswyr ymgyrchu ar ôl y dyddiad hwn.
- 17 Ni chaniateir i ymgeiswyr ganfasio, a ddiffinnir fel mynd ati'n systemig i gysylltu'n uniongyrchol ag unigolion i ofyn am bleidleisiau.
- 18 Dylai ymgeiswyr sicrhau bod eu gweithgarwch ymgyrchu a ganiateir yn unol â Chod Ymddygiad Swyddfa Archwilio Cymru. Yn arbennig, ni ddylent ddynodi unrhyw ymlyniadau gwleidyddol, a rhaid iddynt beidio ag ymgyrchu gan nodi cefnogaeth gan sefydliad allanol. Fodd bynnag, gallant ddynodi cefnogaeth gan gangen leol (yn Swyddfa Archwilio Cymru) o undeb llafur.
- 19 Os bydd ar ymgeiswyr a enwebwyd angen addasiadau rhesymol i gyfranogi yn y broses, bydd y rhain yn cael eu hystyried yn unol â Pholisi Addasiadau Rhesymol Swyddfa Archwilio Cymru.

## Pleidleisio

- 20 Mae holl gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru, beth bynnag fo ffurf neu hyd eu contract, hyd eu gwasanaeth neu eu horiau gwaith yn gymwys i bleidleisio.

- 21 Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd, gan gynnal cyswllt â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a rheolwyr llinell fel y bo'n briodol, yn gwneud trefniadau i sicrhau bod staff sydd i ffwrdd o'r swyddfa, er enghraifft ar secondiad, absenoldeb oherwydd salwch neu absenoldeb rhiant, yn cael cyfle i gyfranogi yn y broses os ydynt yn dewis gwneud hynny.
- 22 Bydd y Bwrdd yn rhoi'r gwaith o weinyddu'r bleidlais ar contract i sefydliad allanol dibynadwy. Rhaid i'r Swyddog Etholiadau sicrhau bod trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau:
- Mai dim ond unwaith y gall cyflogeion bleidleisio; a
  - Bod y canlyniad yn cael ei wirio'n annibynnol fel nad oes modd i aelodau eraill o staff neu'r Bwrdd gael mynediad at y pleidleisiau a fwriwyd gan staff unigol.
- 23 Bydd staff yn cael eu gwahodd i roi "1" ar bwys yr ymgeisydd a ffefrir ganddynt a "2" ar bwys yr ail ymgeisydd a ffefrir ganddynt ac yn y blaen. Mae unrhyw ymgeisydd sy'n cael pleidleisiau dewis cyntaf uwchlaw trothwy rhagderfyndedig a bennir trwy gyfeirio at fformiwla yn cael ei ethol. Pennir y trothwy trwy gyfeirio at y fformiwla ganlynol:

$$\left( \frac{\text{nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd}}{\text{nifer y lleoedd sydd ar gael}+1} \right) + 1$$

- 24 Wedyn caiff pleidleisiau'r ymgeisydd a etholwyd dros ben y trothwy hwn eu trosglwyddo i'r ymgeiswyr eraill yn gymesur â phleidleisiau ail ddewis pleidleiswyr yr ymgeisydd a etholwyd. Os yw unrhyw ymgeisydd yn mynd y tu hwnt i'r trothwy ar ôl yr aiddosbarthiad hwn, caiff ei ethol. Os ar unrhyw adeg yn y broses hon nad oes unrhyw ymgeiswyr heb eu hethol sydd â nifer o bleidleisiau sy'n uwch na'r trothwy, bydd yr ymgeisydd â'r nifer isaf o bleidleisiau dewis cyntaf yn cael ei hepgor a'i bleidleisiau'n cael eu trosglwyddo i'r ymgeiswyr sy'n weddill yn gymesur â'u pleidleisiau ail ddewis. Mae'r broses hon yn parhau nes bod y nifer gofynnol o ymgeiswyr yn sicrhau digon o bleidleisiau i gyrraedd y trothwy.
- 25 Os mai dim ond un lle sydd ar gael mewn unrhyw etholiad penodol, hanner cyfanswm y pleidleisiau fydd y trothwy wedyn. Os nad yw'r un ymgeisydd yn cael mwy na hanner y pleidleisiau, bydd yr ymgeisydd â'r nifer isaf o bleidleisiau dewis cyntaf yn cael ei hepgor a'i bleidleisiau'n cael eu trosglwyddo i'r ymgeiswyr sy'n weddill yn gymesur â'u pleidleisiau ail ddewis, ac yn y blaen nes bod un ymgeisydd yn sicrhau mwy na hanner y pleidleisiau.
- 26 Rhaid i'r Ysgrifennydd anfon neges e-bost at yr holl staff sy'n egluro sut y dylai pleidleisiau gael eu bwrw a hynny o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn i'r bleidlais agor.
- 27 Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer pleidleisio, bydd y contractwr pleidleisio'n gwirio'r pleidleisiau'n annibynnol, a bydd y Swyddog Etholiadau'n ardystio'r canlyniadau. Rhaid i'r Ysgrifennydd gyhoeddi trosolwg o'r canlyniadau ar fewnwyd Swyddfa Archwilio Cymru a threfnu bod y canlyniadau llawn ar gael ar gais. Bydd y trosolwg o'r canlyniadau'n cynnwys enwau pob ymgeisydd a etholwyd, ym mha rownd y

cafodd ei ethol, a'r bleidlais a gafodd ar ei rownd derfynol, yn ogystal ag enwau pob ymgeisydd nas etholwyd ynghyd â nodi ar ba gam y cawsant eu hepgor o'r etholiad a'r bleidlais a gawsant ar eu rownd derfynol.

- 28 Bydd yr aelodau anweithredol o'r Bwrdd yn penodi'r ymgeiswyr llwyddiannus i'r Bwrdd.

## **Anghydfodau a honiadau am dorri'r Rheolau**

- 29 Rhaid i unrhyw ymgeisydd, aelod o staff neu aelod o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru sy'n honni bod y Rheolau hyn wedi cael eu torri hysbysu'r Swyddog Etholiadau ynghylch y ffeithiau sy'n hysbys iddynt cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl dod yn ymwybodol o hynny a rhaid iddynt ddarparu unrhyw dystiolaeth sydd yn eu meddiant neu eu rheolaeth ar gyfer y Swyddog Etholiadau.
- 30 Bydd y Swyddog Etholiadau'n dyfarnu mewn unrhyw achosion o'r fath lle ceir honiadau bod y Rheolau wedi cael eu torri neu anghydfodau eraill ynghylch y broses ethol neu ei chanlyniad. Rhaid cyflwyno rhesymau dros anghydfodau'n ysgrifenedig o fewn 5 niwrnod gwaith i'r dyddiad y daw achos yr anghydfod i'r amlwg. Bydd y Swyddog Etholiadau'n ceisio barn yr ymgeiswyr eraill ac unrhyw bartïon perthnasol eraill a gall gynnal ymholiadau ychwanegol. Bydd y Swyddog Etholiadau'n rhoi ei rhesymau'n ysgrifenedig (a all ddigwydd trwy e-bost).
- 31 Fel rhan o'i benderfyniad ynglŷn ag unrhyw anghydfod, mae gan y Swyddog Etholiadau ddisgresiwn i ddiarddel ymgeisydd. Mae gan y Swyddog Etholiadau ddisgresiwn hefyd i roi estyniad ar y broses bleidleisio neu i'w chanslo a gorchymyn bod pleidlais newydd yn cael ei chynnal yn unol â'r Rheolau hyn. Fodd bynnag, rhaid i'r Swyddog Etholiadau sicrhau bod ei benderfyniad yn rhesymol ac yn gymesur â'r amgylchiadau.
- 32 Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau'r Swyddog Etholiadau trwy gyflwyno apêl ysgrifenedig a honno'n nodi'r rhesymau dros yr apêl i Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Rhaid apelio o fewn 5 niwrnod gwaith i anfon penderfyniad ysgrifenedig y Swyddog Etholiadau. Rhaid i'r Cadeirydd benderfynu'n brydlon ar yr apêl a darparu ei benderfyniad yn ysgrifenedig (a all ddigwydd trwy e-bost). Mae penderfyniad y Cadeirydd yn derfynol. Mae gan y Cadeirydd ddisgresiwn i wyrdroi diarddeliad ond ni all ddiarddel ymgeisydd. Mae gan y Cadeirydd ddisgresiwn hefyd i roi estyniad ar y broses bleidleisio neu i'w chanslo a gorchymyn bod pleidlais newydd yn cael ei chynnal yn unol â'r Rheolau hyn. Fodd bynnag, rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod ei benderfyniad yn rhesymol ac yn gymesur â'r amgylchiadau.
- 33 Os caiff rhywun ei ddiarddel ar ôl cael ei ethol, mae ei benodiad fel aelod o'r Bwrdd o blith y cyflogeion yn terfynu ar ôl i unrhyw apêl gael ei phenderfynu neu, os na cheir apêl, ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer apelio fynd heibio, ac mae lle sy'n digwydd dod yn wag yn codi wedyn.

## Atodiad 2 – Disgrifiadau o rolau hyrwyddwr a chyswllt y Bwrdd

- 1 Gall y Bwrdd benodi aelodau i rolau hyrwyddwr a / neu gyswllt. Wrth wneud hynny bydd y Bwrdd yn ystyried y canlynol:
  - ymrwymïadau Pwyllgor ac ymrwymïadau eraill aelodau, megis cyfrifoldebau fel Cadeirydd ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol;
  - unrhyw ddatganiadau penodol o ddiddordeb neu feysydd arbenigedd penodol sydd gan aelodau; ac
  - unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sydd gan aelodau.
- 2 Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cadw cofnod o benodiadau i rolau hyrwyddwr a chyswllt y Bwrdd.
- 3 Bydd y Bwrdd yn adolygu'r penodiadau'n flynyddol yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, ac yn y cyfarfod hwnnw bydd pob cyswllt neu hyrwyddwr yn darparu diweddariad byr ar ei weithgarwch yn ystod y flwyddyn. Bydd effaith y rolau'n cael ei dogfennu a'i hystyried fel rhan o'r asesiad o effeithiolrwydd y Bwrdd.
- 4 Wrth gyflawni ôl naill ai fel hyrwyddwr neu gyswllt, mae'r Bwrdd yn glir bod y canlynol yn wir:
  - nid yw'r rôl yn tresmasu ar gamau gweithredu a gweithgareddau sydd i fod ar gyfer y weithrediaeth;
  - nid yw'r rôl yn tresmasu ar gamau gweithredu a gweithgareddau sydd i fod ar gyfer y Bwrdd neu ei Bwyllgorau;
  - nid yw aelodau'r Bwrdd yn gallu ymwrthod â'u cyfrifoldeb hwy eu hunain am ddeall y meysydd hyn;
  - rhaid i'r rôl beidio â chyfyngu ar allu aelod i gyflawni ei gyfrifoldebau am ddwyn rheolwyr i gyfrif am eu gweithredoedd;
  - nid yw barn yr hyrwyddwr neu'r cyswllt yn cynrychioli barn y Bwrdd o anghenraid.

### Hyrwyddwr

- 5 Mewn meysydd trawsbynciol pwysig a nodwyd gan y Bwrdd, gall Hyrwyddwr y Bwrdd gael ei enwebu i:
  - ymgysylltu â staff a chefnogi staff sydd â chyfrifoldeb am faes pwnc;
  - helpu i hyrwyddo a/neu godi ymwybyddiaeth o'r maes pwnc; a
  - lle y bo'n briodol, gwneud yn siŵr bod y maes pwnc yn cael ei gymryd i ystyriaeth pan fo'r Bwrdd neu ei Bwyllgorau'n ystyried strategaeth / polisi neu'n gwneud penderfyniadau neu argymhellion.
- 6 Wrth adnabod meysydd pwysig, bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar feysydd sydd ag arwyddocâd i gyflawni llywodraethu da yn Archwilio Cymru, a all gynnwys meysydd megis:
  - gwerthoedd ac ymddygiadau;
  - aeddfedrwydd diwylliannol ac amrywiaeth ddiwylliannol;

- arweinyddiaeth a rheolaeth; a hefyd
- yr egwyddor datblygu cynaliadwy a ffocws yn y dyfodol.

## Cyswllt

- 7 Gall y Bwrdd benodi aelodau i rolau cyswllt mewn meysydd allweddol sy'n bwysig yn strategol i'r sefydliad. Bydd cyswllt y Bwrdd yn:
- ceisio cael lefel ddyfnach o ddealltwriaeth a gwybodaeth am y maes allweddol, ei berthnasedd i uchelgeisiau Archwilio Cymru, y cyfleoedd y mae'n eu rhoi a'r heriau y mae'n eu creu, gan amcanu at ei arfogi ei hun a'r Bwrdd yn well i gyflawni eu rolau;
  - gweithredu fel cyswllt y Bwrdd â'r rheolwyr, gan gynnwys ar gyfer unrhyw waith i graffu ymlaen llaw ar gynlluniau a strategaethau cyn i'r Bwrdd eu hystyried;
  - mynychu cyfarfodydd perthnasol fel y bo'n briodol i oleuo a herio trafodaethau;
  - defnyddio'i brofiad a'i safbwynt i gefnogi a herio rheolwyr yn barhaus, gan roi anogaeth ar gyfer dull arfer da;
  - defnyddio'i brofiad i gynnig arweiniad i arweinwyr prosiectau, gan gynyddu i'r eithaf effeithiolrwydd ei gyfraniad at y maes pwnc;
  - fel y bo'n briodol, ymgysylltu â'r sefydliad ehangach i hybu a chodi proffil y maes pwnc; a
  - cheisio sicrhau bod y Bwrdd mewn sefyllfa dda i wneud penderfyniadau gwybodus ar yr adeg gywir.
- 8 Wrth ddewis meysydd pwnc, bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar eu pwysigrwydd strategol yng nghyd-destun uchelgeisiau Archwilio Cymru, fel a ddisgrifir yn y strategaeth pum mlynedd a phriod Gynlluniau Blynnyddol. Gall y Bwrdd hefyd ystyried:
- lefel y buddsoddiad, gan gynnwys ei botensial i greu arbedion hirdymor;
  - y risgiau, gan gynnwys risgiau i gyfleoedd ac enw da;
  - goblygiadau ar gyfer y gweithlu, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol; a
  - chysylltiadau â phrosiectau neu feysydd pwnc eraill.

## Cyswllt – Prosiect / Tasg

- 9 Gall y Bwrdd hefyd benodi aelodau i rôl gyswllt ar gyfer prosiect neu ddarn o waith penodol am gyfnod penodedig a all olygu bod angen ymwneud gan aelod dros gyfnod byrrach neu at ddiben penodol. Bydd cyswllt y Bwrdd yn:
- cyflawni ei rôl, gan ddilyn yr egwyddorion ar gyfer y rôl gyswllt ehangach a nodir uchod; a
  - lle y bo'n briodol, amlygu ei ymwneud neu gyfraniad yn ystod yr ystyriaeth berthnasol i'r eitem honno gan y Bwrdd.





Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500  
Ffacs: 029 2032 0600  
Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn  
yn Gymraeg a Saesneg.  
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.